# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

**(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot & Microsoft Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Llun, 3 Hydref 2022** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd N.Goldup-John** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, J.Hale, M.Harvey, J.Henton, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.Rogers |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran, C.John a/ac Thomas |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **RÔL A SWYDDOGAETHAU PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r Aelodau mewn perthynas â swyddogaethau'r pwyllgor, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Penderfynwyd: Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r wybodaeth mewn perthynas â'i swyddogaethau a'i gyfrifoldebau.

4. **POLISI CYFARFOD AML-LEOLIAD**

Cyflwynwyd copi drafft o'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Holodd yr aelodau ynghylch y gofyniad i gamerâu gael eu troi ymlaen pan fo aelodau'n siarad o bell. Dywedodd y swyddogion fod y gofyniad i aelodau gael 'eu clywed a'u gweld' yn rhan o'r ddeddfwriaeth gyfredol mewn perthynas â gweithio hybrid.

Penderfynwyd:Nodi darpariaethau'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft a nodir yn Atodiad A a darparu sylwadau fel y bo'n briodol. Dirprwyo awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i baratoi a chyflwyno fersiwn derfynol y Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad i'w gymeradwyo.

5. **DIOGELWCH A LLES CYNGHORWYR**

Cyflwynwyd gwybodaeth i'r aelodau mewn perthynas â Diogelwch a Lles Cynghorwyr fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Dywedwyd wrth aelodau fod y CLlLC yn sefydlu gweithgorau i gynorthwyo gyda datblygu'r rhaglen 'Debate not Hate' sy'n adeiladu ar yr ymgyrch *Civility in Public Life.*

Bydd yr aelodau'n cael y newyddion ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth sy'n dod i'r amlwg.

Penderfynwyd: Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r diweddaraf mewn perthynas â Diogelwch a Lles Cynghorwyr ac yn trafod p'un a oes unrhyw faterion ychwanegol yr hoffent geisio adroddiadau pellach yn eu cylch.

6. **BLAENRAGLEN WAITH 22-23**

I nodi er gwybodaeth.

7. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**